Y Comisiwn Etholiadol

Golwg Gyffredinol

# Golwg gyffredinol ar ymgyrchoedd di-blaid

Mae'r ddogfen hon yn rhoi golwg gyffredinol ar yr hyn yw ymgyrchydd di-blaid a phryd y bydd raid i chi ddilyn y rheolau.

Cynnwys:

Cyflwyniad

Beth sy'n cael ei gynnwys yn y rheolau

Y cyfnod a reoleiddir

Sut i ymgeisio i fod yn drydydd parti cydnabyddedig

Cyfnodau a reoleiddir a chyfyngiadau gwariant

Beth i'w wneud ar ôl cofrestru

## Termau ac ymadroddion a ddefnyddir gennym

Rydym yn defnyddio '**rhaid**' pan fyddwn yn cyfeirio at ofyn cyfreithiol neu reoleiddiol penodol. Rydym yn defnyddio '**dylech**' ar gyfer eitemau yr ydym yn ystyried eu bod yn arfer da, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol.

Nid oes raid i chi ddilyn y cyfarwyddyd hwn, ond os gwnewch hynny, byddwch, fel arfer, yn gwneud digon i gydymffurfio â'r gyfraith.

## Ein hymagwedd at orfodi

Os na fyddwch yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol neu reoleiddiol fe allwch chi a'ch sefydliad fod yn ddarostyngedig i gosbau sifil neu droseddol. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am ymagwedd y Comisiwn at orfodi yn www.electoralcommission.org.uk/party-finance/enforcement.

# Golwg gyffredinol ar ymgyrchoedd di-blaid

## Ar gyfer pwy y mae'r ddogfen hon:

Ymgyrchwyr di-blaid sy'n cymryd rhan mewn ymgyrchu etholiadol.

## Mae'r ddogfen yn trafod:

- Y mathau o ymgyrchoedd di-blaid
- Pwy sy'n rheoleiddio ymgyrchoedd
- Beth sy'n cael ei gynnwys yn y rheolau
- Y cyfnod a reoleiddir, cyfyngiadau gwariant a therfynau amser i adrodd yn ôl
- Pryd fydd angen i chi gofrestru fel trydydd parti cydnabyddedig
- Sut i wneud cais i ddod yn drydydd parti cydnabyddedig
- Beth fydd arnoch angen ei wneud ar ôl cofrestru

## Dogfennau cysylltiedig:

- Cyflwyniad i ymgyrchwyr di-blaid
- Golwg gyffredinol ar ddeunydd ymgyrchu di-blaid
- Sefyllfaoedd a gweithdrefnau: Digwyddiadau hysting

# 2

## Ffurflenni ac esboniadau ar refferenda

- TP1: Hysbysiad o statws trydydd parti cydnabyddedig

## Papurau arbenigol

- Rhannu gwariant

# Crynodeb

Yn rhinwedd bod yn ymgyrchydd di-blaid, efallai y bydd raid i chi gydymffurfio â'r rheolau ar ymgyrchu yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol a Refferenda 2000 (PPERA).

Mae'r cyflwyniad hwn yn rhoi amlinelliad sylfaenol i chi o beth yw ymgyrchydd di-blaid, pryd y bydd raid i chi gydymffurfio â PPERA a ble y gallwch chi ddod o hyd i ragor o wybodaeth.

4

## Cyflwyniad

Unigolion neu sefydliadau sy'n ymgyrchu mewn etholiadau yw ymgyrchwyr di-blaid, ond nad ydynt yn sefyll fel pleidiau gwleidyddol neu ymgeiswyr. Yn y gyfraith etholiadol, rydym hefyd yn galw'r unigolion neu sefydliadau yma yn 'drydydd parti'.

Efallai y byddwch am ymgyrchu ar faterion penodol, neu dros neu yn erbyn pleidiau neu ymgeiswyr penodol.

# Y mathau o ymgyrch ddi-blaid

Mae dau fath o ymgyrch ddi-blaid. Sef:

- Ymgyrchoedd lleol – ymgyrchoedd di-blaid dros neu yn erbyn un neu fwy o ymgeiswyr mewn etholaeth, ward neu ardal etholiadol arall.
- Ymgyrchoedd cyffredinol – ymgyrchoedd di-blaid dros neu yn erbyn plaid wleidyddol, polisi, pwnc penodol neu fath arbennig o ymgeisydd.

Mae rheolau gwahanol yn berthnasol i'r ddau fath yma o ymgyrch ddi-blaid.

# Pwy sy'n rheoleiddio **ymgyrchoedd?**

## Ymgyrchoedd lleol

Os byddwch yn ymgyrchu dros neu yn erbyn un neu fwy o ymgeiswyr mewn ward neu etholaeth benodol, rydych yn cael eich rheoleiddio dan Adran 75 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (RPA), neu ddeddfwriaeth gyfatebol yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.

**Nid ydym** yn rheoleiddio ymgyrchoedd lleol, felly mae'r rheolau hynny tu hwnt i gwmpas ein cyfarwyddyd. Ond, fe welwch olwg gyffredinol gryno ar reolau ymgyrchu lleol yn yr adran nesaf.

## Ymgyrchoedd cyffredinol

Dan PPERA, mae ymgyrchoedd cyffredinol yn cael eu rheoleiddio gennym ni, Y Comisiwn Etholiadol.

Os byddwch yn ymgyrchu dros neu yn erbyn pleidiau gwleidyddol, polisïau, problemau penodol neu fathau o ymgeiswyr efallai y bydd angen i chi gofrestru â ni a dilyn y rheolau a'r gofynion adrodd yn ôl ar wariant ar ymgyrch a rhoddion.

# Beth sy’n cael eu cynnwys dan y rheolau?

## Ymgyrchoedd lleol

Mae cyfyngiadau ar faint y gallwch chi ei wario ar ymgyrchu dros neu yn erbyn ymgeiswyr penodol mewn ward, etholaeth neu ardal leol. Mae’r cyfyngiadau yma yn wahanol, gan ddibynnu ar y math o etholiad.

Mae’r cyfyngiadau yma ar wariant yn cynnwys y rhan fwyaf o weithgareddau ymgyrchu, gan gynnwys taflenni, cyfarfodydd a gwefannau.

Pwysig

Mae ymgyrchoedd lleol tu hwnt i gwmpas ein cyfarwyddyd.

Dylai unrhyw gwynion am ymgyrchoedd lleol gael eu cyflwyno i’r heddlu.

### Ar gyfer etholiad cyffredinol y Deyrnas Unedig

Ar gyfer etholiad cyffredinol y Deyrnas Unedig, y cyfyngiad gwariant ar eich ymgyrch yw £500. Mae’r cyfyngiad hwn yn berthnasol o’r dyddiad y mae’r Senedd yn cael ei diddymu.

### Ar gyfer etholiad llywodraeth leol

Ar gyfer etholiad llywodraeth leol, y cyfyngiad gwariant ar eich ymgyrch yw £50, a £0.05p am bob etholwr ar gofrestr etholwyr y ward.

Er enghraifft:

Os bydd 1,000 o bobl ar gofrestr etholwyr y ward, gallwch wario £55. Dyma sut y cyfrifir y swm hwn:

| | |
|---|---|
| 1. Darganfyddwch y cyfyngiad gwariant | £50 |
| 2. Cyfrifwch nifer yr etholwyr x £0.05p | 1,000 x £0.05p = £5 |
| 3. Ychwanegwch at ei gilydd i gael y cyfanswm gwariant | £50 + £5 = £55 |

Mae’r cyfyngiad hwn yn berthnasol o’r dyddiad y daeth yr unigolyn yr ydych yn ymgyrchu drosto neu yn ei erbyn yn ymgeisydd.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am pryd y bydd pobl yn dod yn ymgeiswyr yn ein cyfarwyddyd i ymgeiswyr ac asiantau.

## Ymgyrchoedd cyffredinol

Dan PPERA, mae rheolau yn berthnasol i ddeunydd etholiad (taflenni, hysbysebion a gwefannau a'u tebyg) sydd:

- yn ymddangos fel petaent wedi eu bwriadu i ymgyrchu dros neu yn erbyn, neu wella sefyllfa pleidiau gwleidyddol penodol, pleidiau neu ymgeiswyr sy'n cefnogi polisïau neu faterion penodol, neu fathau o ymgeiswyr; a
- sydd ar gael i'r cyhoedd.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am yr hyn sy'n cyfrif fel 'deunydd etholiad' yn ein Golwg gyffredinol ar ddeunydd ymgyrchu di-blaid.

Os byddwch yn cynhyrchu'r math hwn o ddeunydd ymgyrchu, gallwch wario hyd at £10,000 yn Lloegr neu £5,000 yn yr Alban, Cymru neu Ogledd Iwerddon oni bai eich bod yn cofrestru â ni. Os byddwch am wario mwy na'r symiau hyn, bydd arnoch angen cofrestru â ni a dod yn drydydd parti cydnabyddedig.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am gofrestru â ni ar dudalen 10 o'r cyfarwyddyd hwn.

## Ymgyrchoedd ar y cyd gydag ymgyrchwyr di-blaid eraill

Os byddwch yn gweithio gydag ymgyrchwyr di-blaid eraill ar ymgyrch ar y cyd, bydd yr holl gostau y byddwch yn eu tynnu rhyngoch yn cyfrif ar wahân yn erbyn eich cyfyngiad chi a chyfyngiadau'r ymgyrchwyr eraill.

### Er enghraifft:

Rydych chi ac ymgyrchydd arall yn cytuno i wario £8,000 ar ymgyrch ar y cyd. Felly, y cyfanswm ar gyfer yr ymgyrch ar y cyd yw £16,000.

Bydd raid i'r ddau ohonoch gofnodi gwariant ar ymgyrch ar y cyd o £16,000.

Gan fod cost yr ymgyrch ar y cyd yn golygu y bydd eich gwariant yn codi uwch ben £10,000, bydd raid i chi a'r ymgyrchydd arall gofrestru â ni yn unigol.

## Gweithio gyda phlaid neu ymgeisydd

Gallwch hefyd fod yn gweithio gyda phlaid wleidyddol neu ymgeisydd. Os byddwch, gall hyn effeithio ar y gwariant ar eich ymgyrch.

Dylech ddarllen Golwg gyffredinol ar ddeunydd ymgyrchu di-blaid am ragor o wybodaeth.

# Defnyddio gwasgnod

## Beth yw gwasgnod?

Ychwanegir gwasgnod at ddeunydd ymgyrch i ddangos pwy sy'n gyfrifol am ei gynhyrchu. Mae'n helpu i sicrhau bod tryloywder am bwy sy'n ymgyrchu mewn refferendwm.

Dylai unrhyw gŵyn am dorri'r rheolau gwasgnod gael ei chyflwyno i'r heddlu.

Gwasanaeth Erlyn y Goron sy'n gwneud y penderfyniadau terfynol ar erlyn.

Ond, ni fyddwn fel arfer yn ystyried atgyfeirio achosion pan fydd yn amlwg pwy sy'n gyfrifol am ei gynhyrchu.

## Beth fydd arnoch angen ei gynnwys?

Ar ddeunydd printiedig fel taflenni a phosteri, rhaid i chi gynnwys enw a chyfeiriad:

- yr argraffydd
- yr hyrwyddwr

Yr hyrwyddwr yw'r unigolyn sydd wedi caniatáu i'r deunydd gael ei argraffu. Os byddwch chi wedi cofrestru â ni fel ymgyrchydd di-blaid, yr unigolyn yr hysbyswyd ni mai ef neu hi yw'r 'unigolyn cyfrifol' fydd hwn, neu rywun sydd wedi cael ei ganiatâd ef neu hi i dynnu'r gwariant.

Os bydd yr hyrwyddwr yn gweithredu ar ran grŵp neu sefydliad, rhaid i chi hefyd gynnwys enw a chyfeiriad y grŵp neu sefydliad.

Gallwch ddefnyddio cyfeiriad cartref neu gyfeiriad swyddfa.

Os byddwch yn rhoi hysbyseb mewn papur newydd, nid oes raid i'ch hysbyseb gynnwys manylion yr argraffydd.

### Enghraifft o wasgnod

Dylai gwasgnod safonol edrych fel hyn:

> Argraffwyd gan Armadillo Printing Ltd, 20 Barry Avenue, Leeds. Hyrwyddwyd gan J Smith ar ran y Grŵp Ymgyrchu, y ddau o 110 Stryd Fawr, Stafford.

## Ble ddylech chi roi'r gwasgnod?

Os mai un ochr sydd i'ch deunydd – fel poster ar gyfer ffenestr – rhaid i chi roi'r gwasgnod ar wyneb y ddogfen.

Os oes mwy nag un ochr, rhaid i chi ei roi ar y dudalen gyntaf neu'r olaf.

### Gwefannau a deunydd electronig arall

Dylech hefyd roi gwasgnod ar ddeunydd electronig, fel gwefannau ac e-bost. Dylai'r gwasgnod gynnwys enw a chyfeiriad yr hyrwyddwr a'r sefydliad y mae wedi cael ei gynhyrchu ar ei ran.

# Y cyfnod a reoleiddir

## Beth yw'r 'cyfnod a reoleiddir'?

Yn y cyfnod cyn etholiad, mae 'cyfnod a reoleiddir' penodol. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r cyfyngiadau gwariant a rheolau ymgyrchoedd yn berthnasol.

Mae cyfnodau a reoleiddir yn berthnasol mewn etholiadau i:

- Senedd Ewrop
- Senedd y Deyrnas Unedig
- Senedd yr Alban
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Cynulliad Gogledd Iwerddon

Dim ond pan fydd yr etholiad yn disgyn o fewn y cyfnod a reoleiddir ar gyfer un o'r etholiadau a restrir ar y chwith y bydd gwariant ar etholiadau awdurdod lleol yn dod dan y rheolau ar gyfer ymgyrchoedd cyffredinol.

## Pa mor hir yw'r cyfnodau a reoleiddir?

Fel arfer mae gan etholiadau cyffredinol yn y Deyrnas Unedig gyfnod a reoleiddir o 365 diwrnod, gan ddod i ben ar ddiwrnod yr etholiad.

Mae gan bob etholiad arall gyfnod a reoleiddir o bedwar mis, gan ddod i ben ar ddiwrnod yr etholiad.

# 10

## Y rheolau ar gyfer blynyddoedd penodol

Bob blwyddyn rydym yn cyhoeddi cyfarwyddyd penodol ar gyfer etholiadau sy'n digwydd y flwyddyn honno. Gallwch ddod o hyd i'r cyfarwyddyd hwn ar dudalen cyfarwyddyd ymgyrchwyr di-blaid.

Am gyfarwyddyd penodol i etholiad, gweler y dudalen cyfarwyddyd ymgyrchwyr di-blaid.

Mae ein cyfarwyddyd penodol i flwyddyn yn nodi'r cyfnodau a reoleiddir, y cyfyngiadau gwariant a'r terfynau amser ar gyfer adrodd yn ôl ar gyfer etholiadau'r flwyddyn.

## Cofrestru yn drydydd parti cydnabyddedig

### Pwy all gofrestru yn drydydd parti cydnabyddedig?

Dim ond y mathau canlynol o unigolion neu sefydliadau all gofrestru a dod yn 'drydydd parti cydnabyddedig':

- Unigolyn sydd wedi cofrestru ar gofrestr etholwyr yn y Deyrnas Unedig neu sy'n preswylio yn y Deyrnas Unedig.
- Plaid wleidyddol a gofrestrwyd yn y Deyrnas Unedig.
- Cwmni a gofrestrwyd yn y Deyrnas Unedig sydd wedi ei ymgorffori yn yr Undeb Ewropeaidd ac sy'n cynnal busnes yn y Deyrnas Unedig.
- Undeb llafur a gofrestrwyd yn y Deyrnas Unedig.
- Cymdeithas Adeiladu a gofrestrwyd yn y Deyrnas Unedig.
- Partneriaeth atebolrwydd cyfyng a gofrestrwyd yn y Deyrnas Unedig sy'n cynnal ei busnes yn y Deyrnas Unedig.
- Cymdeithas gyfeillgar, ddiwydiannol, ddarbodus neu adeiladu a gofrestrwyd yn y Deyrnas Unedig.
- Cymdeithas heb ei hymgorffori sy'n gweithredu yn y Deyrnas Unedig ac yn cynnal y mwyafrif o'i busnes neu weithgareddau eraill yn y Deyrnas Unedig.

Os na fedrwch gofrestru, ni allwch wario mwy na £10,000 yn

Lloegr neu £5,000 yn yr Alban, Cymru neu Ogledd Iwerddon.

# Sut allwch chi ymgeisio i ddod yn drydydd parti cydnabyddedig?

Mae'n rhaid i chi wneud cais i ni, Y Comisiwn Etholiadol, i ddod yn drydydd parti cydnabyddedig. Gallwch wneud hyn trwy lenwi ac anfon ffurflen TP1 atom ni.

Rhaid i chi hefyd benodi 'unigolyn cyfrifol' a fydd yn gyfrifol am sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'r rheolau.

## Am ba mor hir y bydd eich cofrestriad yn parhau?

Mae eich cofrestriad fel trydydd parti cydnabyddedig yn parhau am 15 mis. Cyn y bydd arnoch angen adnewyddu eich cofrestriad, byddwn yn anfon nodyn atgoffa atoch. Os nad ydych am adnewyddu, rhaid i chi lenwi a dychwelyd ffurflen TP3 atom.

# Beth fydd arnoch angen ei wneud ar ôl i chi gofrestru?

Ar ôl cofrestru, bydd angen i chi gadw at y rheoliadau gwariant a rhoddion a'r gofynion adrodd yn ôl.

Yn gyffredinol, bydd raid i chi:

- Gofnodi unrhyw wariant ar ymgyrch.
- Wirio eich bod yn medru derbyn unrhyw roddion a benthyciadau y byddwch yn eu derbyn sy'n fwy na £500 a'u cofnodi.
- Cadw anfonebau a derbynebau am symiau sydd yn fwy na £200.
- Roi adroddiad i ni ar eich gwariant ac ar roddion y byddwch yn eu derbyn sy'n fwy na £7,500.

Am ragor o wybodaeth gweler y dogfennau canlynol:

- Rheoli gwariant ymgyrch ddi-blaid
- Golwg gyffredinol ar roddion i ymgyrchwyr di-blaid

12

# Sut gallwn ni helpu

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth yn y dogfennau cyfarwyddyd yr ydym wedi eu hawgrymu yn y ddogfen hon, neu gallwch weld ein dewis llawn o gyfarwyddyd ac adnoddau cyfredol ar ein gwefan.

Os yw hynny'n haws, gallwch hefyd gysylltu â ni ar un o'r rhifau ffôn neu gyfeiriadau e-bost isod. Rydym yma i'ch helpu, felly cysylltwch â ni.

Ffoniwch ni ar:

- Lloegr: 020 7271 0616
  pef@electoralcommission.org.uk
- Yr Alban: 0131 225 0200
  infoscotland@electoralcommission.org.uk
- Cymru: 029 2034 6800
  infowales@electoralcommission.org.uk
- Gogledd Iwerddon: 0289 089 4020
  infonorthernireland@electoralcommission.org.uk

Ewch i'n gwefan yn www.electoralcommission.org.uk

Rydym yn croesawu adborth ar ein cyfarwyddyd – anfonwch e-bost atom yn: pef@electoralcommission.org.uk

## Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth ynghylch cael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu ar ffurf fersiwn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: publications@electoralcommission.org.uk